NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r darpariaethau ynglŷn â hysbysiadau malltod yn adrannau 149 i 171 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("y Ddeddf") yn galluogi personau sydd â buddiannau penodol mewn categorïau o dir (gan gynnwys tir y mae cynigion cynllunio a chynigion priffyrdd penodol yn effeithio arno) i'w gwneud yn ofynnol i'r awdurdod priodol gaffael eu buddiant yn y tir. Mae'r categorïau o dir wedi eu pennu yn Atodlen 13 i'r Ddeddf.

Un o'r buddiannau mewn tir yng Nghymru sy'n gymwys i'w ddiogelu yw buddiant perchenfeddiannydd hereditament pan na fo gwerth blynyddol yr hereditament yn fwy nag unrhyw swm a ragnodir gan Weinidogion Cymru. Ystyr "hereditament" yw hereditament perthnasol o fewn ystyr adran 64(4)(a) i (c) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988.

Mae'r Gorchymyn hwn yn codi'r terfyn gwerth blynyddol o £34,800 i £36,000 o ran Cymru.

Mae Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Darpariaethau Malltod) (Cymru) 2011 wedi ei ddirymu.

Mae asesiad effaith wedi ei lunio mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. Mae copïau ar gael oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.